



Cam 10: Dylunio ymgyrch hysbysebu

Amcanion dysgu

- Dylunio a gwneud defnydd pacio
- Ysgrifennu a pherfformio deunydd hyrwyddo

Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, bydd y plant yn cymryd ysbrydoliaeth o hysbysebion bwyd a bwytai ac yn dysgu am wahanol fathau o hyrwyddiad y mae busnesau'n eu defnyddio i ddenu cwsmeriaid. Byddant yn defnyddio'r dysgu hwn i ddylunio ymgyrch hysbysebu i hyrwyddo eu bwyty â thema.

Ar ôl hynny, bydd y plant yn cael eu herio i baratoi cyflwyniad byr i egluro eu taith fusnes ac arddangos y saig a'r model bwyty â thema o'u dewis.

Defnyddiau sydd eu hangen

- Hysbysebion bwyd o gylchgronau
- Papur a cherdyn lliw
- Creonau, pensiliau / peniau ffelt

Nodiadau cyflwyno

Sleid 2-3: Hyrwyddo	<ul style="list-style-type: none">• Rhannwch y diffiniad o hyrwyddiad a gofynnwch i'r plant feddwl am unrhyw enghreifftiau bywyd go iawn y maen nhw wedi'u gweld.
Sleid 4: Ymchwilio hysbysebu bwyd	<ul style="list-style-type: none">• Rhowch ddeholiad o hysbysebion bwyd o gylchgronau i'r plant a gofynnwch iddynt edrych ar yr hyn y mae'r busnesau wedi'i wneud i berswadio cwsmeriaid i brynu eu cynnyrch. Ydyn nhw'n meddwl ei fod wedi gweithio? A fyddent yn cael eu perswadio? Sut mae'r hysbyseb yn defnyddio ffotograffau ac iaith berswadiol?
Sleid 5: Ysgrifennu hysbyseb	<ul style="list-style-type: none">• Yna dylai'r plant gael ysbrydoliaeth o'r deunydd hyrwyddo y maent wedi'i archwilio i ddylunio eu hysbyseb ysgrifenedig eu hunain ar gyfer eu cynnyrch.• Atgoffwch y plant i ddisgrifio/egluo sut mae eu cynnyrch yn well na chynhyrchion eu cystadleuwyr ac amlygu'r buddion maethol a nodwyd ganddynt yn eu dadansoddiad maethol.• Atgoffwch y plant i gynnwys y pris a'r cynigion arbennig e.e. pris rhagarweiniol is, prynu un cael un am ddim ac ati.
Sleid 6: Ysgrifennu a pherfformio hysbyseb teledu neu radio	<ul style="list-style-type: none">• Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau i gynllunio a pherfformio hysbyseb teledu neu radio ar gyfer eu cynnyrch.• Atgoffwch nhw i siarad ar gyflymder a chyfaint clir wrth gyflwyno.• Aseswch iaith lafar yn ystod eu perfformiad.

<p>Sleid 7-9: Pecynnu plastig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Efallai yr hoffai bwyta'r plant gynnig gwasanaeth tecawê. Fodd bynnag, mae'r diwydiant tecawê yn cynhyrchu llawer o wastraff plastig untro a fydd yn cymryd cannoedd o flynyddoedd i fiogdiraddio. • Defnyddiwch y PowerPoint i arwain trafodaeth am wastraff pecynnu plastig na ellir ei ailgylchu.
<p>Sleid 10: Dylunio a gwneud defnydd pacio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Heriwch y plant i ddylunio dull o becynnu eu dognau tecawê sy'n lleihau pecynnu ac yn defnyddio defnyddiau y gellir eu hailgylchu'n hawdd. • Gofynnwch i'r plant dynnu llun a labelu braslun o'u pecynnu. Atgoffwch nhw i feddwl yn ofalus sut y byddan nhw'n gwneud i'w cynnyrch sefyll allan ar y stryd gan y dylai eu cwsmeriaid weithredu fel hysbysebion ar gyfer eu bwyty. • Yna dylai'r plant wneud ac addurno enghraifft o'r defnydd pacio a'i werthuso yn erbyn eu braslun dylunio.
<p>Cyflwyno'r prosiect busnes terfynol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhowch gyfle i'r plant baratoi cyflwyniad i rannu eu teithiau busnes: o ddatblygiad eu henw a'u logo, i greu eu saig thema arloesol, i adeiladu eu model wrth raddfa o'u bwyty gyda goleuadau a hyrwyddo buddion eu ryseitiau o ran maeth a'r amgylchedd. Efallai yr hoffent gyflwyno hyn fel fideo gan ddefnyddio ap iPad fel iMovie. • Byddai hwn yn gyfle da i asesu sgiliau iaith lafar.

Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

Pwnc	Testun	Amcan
<p>Dylunio a Thechnoleg</p>	<p>Dylunio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio ymchwil a datblygu meini prawf dylunio i lywio dyluniad cynhyrchion arloesol, swyddogaethol, apelgar sy'n addas at y diben, wedi'u hanelu at unigolion neu grwpiau penodol • Cynhyrchu, datblygu, modelu a chyfleu eu syniadau trwy drafodaeth, brasluniau anodedig, diagramau trawsdoriadol a ffrwydrad, prototeipiau, darnau patrwm a dyluniad gyda chymorth cyfrifiadur
	<p>Gwneud</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dewis a defnyddio ystod ehangach o ddeunyddiau a chydannau, gan gynnwys deunyddiau adeiladu, tecstilau a chynhwysion, yn ôl eu priodweddau swyddogaethol a'u rhinweddau esthetig
	<p>Gwerthuso</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio a dadansoddi ystod o gynhyrchion sy'n bodoli eisoes • Gwerthuso eu syniadau a'u cynhyrchion yn erbyn eu meini prawf dylunio eu hunain ac ystyried barn eraill i wella eu gwaith

Pwnc	Testun	Amcan
Saesneg a Cymraeg	Iaith lafar	<ul style="list-style-type: none"> Siarad yn glywadwy ac yn rhugl gyda meistrolaeth gynyddol o iaith Safonol Cymryd rhan mewn trafodaethau, cyflwyniadau, perfformiadau, chwarae rôl, byrfyfyrion a dadleuon
	Ysgrifennu cyfansoddiadol	<ul style="list-style-type: none"> Cynllunio eu hysgrifennu trwy adnabod y gynulleidfa ar gyfer a phwrpas yr ysgrifennu, dewis y ffurf briodol a defnyddio ysgrifennu tebyg arall fel modelau ar gyfer eu hunain, gan nodi a datblygu syniadau cychwynnol, tynnu ar ddarllen ac ymchwil lle bo angen Drafftio ac ysgrifennu trwy ddewis gramadeg a geirfa briodol, gan ddeall sut y gall dewisiadau o'r fath newid a gwella ystyr, gan ddefnyddio ystod eang o ddyfeisiau i adeiladu cydlyniant o fewn ac ar draws paragraffau, gan ddefnyddio dyfeisiau sefydliadol a chyflwyniadol pellach i strwythuro testun ac i arwain y darlennydd [er enghraifft, penawdau, pwyntiau bwled, tanlinellu]